CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION TACHWEDD 15, 2022

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Lanfachreth
Nos Fawrth, Hydref 18, 2022 am 7:30 o'r gloch.

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cynghorwyr: Meurig Ashton (Cadeirydd), Karen G. Goswell, Gerallt Griffith, Peredur Jenkins, Robin Jones. Rhun Prys Jones, Llion Williams, Geraint Evans. Hefyd Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

2. Ymddiheuriadau: Emlyn Roberts.

3. Datgan diddordeb.

Roedd Llion yn datgan diddordeb ynglŷn â chais cynllunio Eitem 8.a.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 18, 2022

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 18, 2022.

Eitem 7.g. Derbyniwyd sylwadau Peredur, ar ran y Cyngor, ynglŷn â'r Ymgynghoriad ac fe'i hanfonwyd i Cyngor Gwynedd ac i'r aelodau. Derbyniwyd sylwadau personol Rhun i'r Ymgynghoriad ac fe'i hanfonwyd i Cyngor Gwynedd ac i'r aelodau.

Eitem 11.ch. Llythyr (15/11/2022) oddi wrth Rhun yn rhoi gwybod am ddamwain car ar y ffordd wrth Seren Fach; amgau oedd lluniau. Hefyd lluniau am ddamwain pryd roedd oedd angen Ambiwlans Awyr.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (15/11/2022) oddi wrth gan Delyth yn rhoi gwybod bydd Priffyrdd yn symud yr arwydd yn nes at y Capel. Bydd arwydd newydd melyn yn cael ei osod gyda Z ac Arafwch arno. Hefyd bydd arwydd ARAF mewn coch yn cael ei roi ar wyneb y ffordd. Bydd ymchwiliad yn cael ei wneud o'r wybodaeth cafwyd gan y teclyn mesur traffig.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd i Delyth a Rhun i archwilio'r ffordd am syniadau i wella diogelwch y ffordd.

7. Gohebiaeth

a. Llythyr (19/10/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cynnwys 'Galluogi pobl i ymgysylltu â'r amgylchedd naturiol a chael mynediad iddo'.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (20/10/2022) oddi wrth Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn rhoi gwybod am newyddion Ambiwlans Awyr Cymru. Mae'r Corff Gwarchod Gwasanaethau Iechyd dros Gogledd Cymru a'r Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn annog elusen drafft i drafod eu cynlluniau yn llawn. Mae'r Corff wedi annog Elusen Ambiwlans Awyr Cymru i siarad a gwrando ar bobl leol am y newidiadau arfaethedig i leoliadau y gwasanaeth Ambiwlans Awyr.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (3/11/2022) oddi wrth Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn rhoi gwybod maent yn croesawu sgyrsiau pellach gyda'r cyhoedd ynglŷn â chynlluniau Ambiwlans Awyr Cymru i leoli'r gwasanaethau Ambiwlans Awyr. Mae CICGC yn aros am fanylion yr ymgysylltu ac mi fydd yn cael ei ranu ar wefan CICGC.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ch. Llythyr (20/10/2022) oddi wrth Comisiwn Ffiniau i Gymru. Maent wedi cyhoeddi eu cynigion diwygiedig ar gyfer etholaethau seneddol newydd Cymru ac mae ar gael ar wefan y Comisiwn. Mae mapiau o bob etholaeth arfaethedig a Phecyn Partneriaid y Comisiwn ar y wefan.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (22/1/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu cynhadledd ar Bioamrywiaeth bydd yn cael ei gynal ar 27/10/2022 ar-lein.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (25/10/2022) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd gwaharddiad trafnidiaeth dros dro ar Ffordd Dosbarth III gyferbyn â Gelli, Llanfachreth. Bydd y ffordd ar gau ar 31/10/2022 am 3 diwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i wneud gwaith cryfhau ymyl y ffordd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

e. Llythyr (27/10/2022) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith yn cael ei wneud gan Tim Tacluso Ardal Ni ym mis Tachwedd .

f. Llythyr (31/10/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd am 7.00yh dydd Mercher, 9 Tachwedd ,2022 gan ddefnyddio Zoom. Amgáu mae linc Zoom, Agenda'r cyfarfod, Cofnodion cyfarfod cyffredinol blynyddol a Chofnodion cyfarfod cyffredin oedd ym Mehefin 29, 2022,

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ff. Llythyr (1/11/2022) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o gyrsiau hyfforddiant am fis Tachwedd / Rhagfyr.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

g. Llythyr (7/11/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Cynhadledd Arfer Arloesol dydd Mawrth Rhagfyr 8, 2022 ar thema 'Paratoi Ein Hunain i Ddarparu Trefi a Chymunedau Llwyddiannus a Bywiog'. Amgáu mae Agenda a Ffurflen Archebu. Bydd y gynhadledd ar-lein..

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

h. Llythyr (11/11/2022) oddi wrth LGFR. Consultations trwy law Un llais Cymru yn rhoi gwybod mae ymgynghoriadau ar reoliadau drafft yn ymestyn eithriadau premiymau ail gartrefi ac ar ganllawiau. Maent angen sylwadau erbyn 22 Rhagfyr, 2022.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

i. Llythyr (14/11/2022) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopi o ganllawiau ar 'Bwlio ac Aflonyddu mewn Cynghorau'. Mi ddylai fod yn ddefnyddiol i drin materion sy'n codi mewn sefyllfaoedd o'r fath. Amgáu mae dogfen gyda 20 o dudalenau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

j. Llythyr (15/11/2022) oddi wrth WHP Telecoms Ltd yn rhoi gwybod am gynlluniau EE a Hutchison i uwchraddio eu hoffer yn addas i 5G. Mae'r offer ar dir Coedrhoslwyd, Rhydymain. Amgau mae eu cynlluniau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/54/L310. Trosi adeilad allanol i greu llety byw ychwanegol i'r prif dŷ Dôl Feili, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (30/10/2022).

9. Materion Ariannol

a. Llythyr (3/11/2022) oddi wrth Un Llais Cymru. Amgáu mae manylionn cyflog i glercod am y cyfnod 2022/23.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Cyflog presennol y Clerc yw £10.84 x 18awr x 12 mis = £2,341.44 y flwyddyn, ar SCP8.. Taliad misol i'r Clerc: £156.12; taliad misol i Cyllid a Thollau EM: £39.00.

Mae pwynt SCP8 wedi newid i £11.84 yr awr ddyddiedig Ebrill 1,2022.

Penderfynwyd rhoi'r cyflog ar £11.84 yr awr. Y cyflog felly fydd £11.84 x 18awr x 12mis = £2,557.44. Bydd angen i E.W. Owen a'i Chwmni roi gwybod y taliad i'r Clerc ac i Cyllid a Thollau EM.

b. Derbyniwyd (1/11/2022) amcan bris o £588.73 oddi wrth Gwynfor E. Jones i drwsio'r fainc yn Llanfachreth. Gweler cofnodion Medi 20, 2022, eitem 12.a.

Anfonwyd yr amcan bris ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd derbyn y pris ac i Gwynfor E. Jones gwneud y gwaith.

c. Bil (7/11/2022) am £2,310 oddi wrth A.M. Ashton am dorri llwybrau (£2,250) y gymuned ac am dorri a chlirio tyfiant o amgylch y pedwar llochess bws (£60).

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/10/2022: £1,142.48.
Balans yn y banc ar 29/10/2022: £12,791.01 (29/10/2021: £11,436.30).

10. Archwilio

11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

a. Adroddiad (4/11/2022) oddi wrth Cefin Cambell AS i gynghorwyr Cyngor Gwynedd. Gyda Prydain wedi gadael Ewrop mae Cymru am gyflwyno dull newydd o ddarparu cymorth amaethyddol trwy Bil Amaethyddiaeth (Cymru) a bydd yn cael ei alw'n 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy'. Mae disgwyl bydd amcanion y Bil wedi ei gwblhau ym mis Ionawr 2023.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (14/11/2022) oddi wrth Pwyllgor Gwasanaeth Ambiwlans Brys ynglŷn â lleoliad Ambiwlans Awyr Cymru yn Caernarfon a'r Trallwng. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn 2023 wedi cwblhau ymgynghoriad cyhoeddus.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Sefyllfa tai yn Gwynedd:
Ar y rhestr aros am dai cymdeithasol – 3,335
% sydd ddim yn lleol – 1% (trais domestig)
Unigolion yn ddi- gartref – 250
Wedi eu cartrefu ers cychwyn y cynllun presennol – 1,300
500 yn band A sef yr angen mwyaf
14% o gartrefi yn cael ei tan feddiannu
Cost digartref yng Ngwynedd – £5M

d. Mae Premiwm Treth yn cael ei drafod gan Cyngor Gwynedd.

dd. Mae'n debygol bydd Seashells yn gwneud y gwaith gofalu am yr henoed ar ran Cyngor Gwynedd.

e. Mae'n debygol bydd gwaith gwella Pont Tyddyn Du, Hermon yn cael ei wneud mis Mehefin.

12. Materion yr Aelodau

a. Penderfynwyd i Gerallt a Henry gwneud apwyntiad i weld Mrs Nancy Thuirst.

Llofnod: Dyddioad: